Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Gorsaf Bŵer Penfro Arfaethedig RWE npower

Cwestiynau a ofynnir yn fynych

Beth yw ystyr 'penderfynu' yma?

- Yn yr achos hwn, proses penderfynu a ddylid rhoi trwydded ai peidio.

- Os ydym ni'n rhoi trwydded, y penderfyniad ynghylch pa amodau sydd eu hangen ar gyfer amddiffyn iechyd dynol a'r amgylchedd.

Faint o amser sydd gennych chi ar gyfer penderfynu?

- Mae gennym **20 niwrnod** o dderbyn y cais i ddatgan ei fod wedi'i 'wneud yn rheolaidd'. Mae cais wedi'i wneud yn rheolaidd os yw'n cynnwys yr wybodaeth y mae'i hangen ar Asiantaeth yr Amgylchedd, a bod y tâl cywir wedi'i dalu. Gallai hyn arwain at roi trwydded neu wrthod y cais.
- O'i 'wneud yn rheolaidd', hysbysebwn y cais ar ein gwefan ni ac ym mhapur newydd lleol, a gwahoddwn unigolion a chyrff i wneud sylwadau yn ei gylch. Rhoddir y cais ar y cofrestrau cyhoeddus. Ymgynghorir, fel arfer, am o leiaf **28 niwrnod**. Ystyriwn sylwadau'r ymgynghoriad, a gwnawn benderfyniad arfaethedig ynghylch y cais am drwydded. **Hyd statudol hwyaf y cyfnod hwn yw 4 mis**, a gellir ei ymestyn os yw'r ymgeisydd yn cydsynio: ond bydd y 'cloc yn peidio' os gofynnwn i'r ymgeisydd am ragor o wybodaeth.

- Ystyriwn yr holl wybodaeth, a gwnawn benderfyniad arfaethedig ynghylch a ddylid rhoi'r drwydded ai peidio.

- Efallai y penderfynwn ymgynghori drachefn ynglŷn â'n penderfyniad 'arfaethedig' ni (sef 'ymgynghoriad arfaethu'), a gynhwysa esboniad ynghylch sut y gwnaethom ein penderfyniad arfaethedig, a sut yr ystyriasom bob ymateb ymgynghorol. Rhoddwn y penderfyniad arfaethedig a'r dogfennau ategol ar y cofrestrau cyhoeddus (gw. isod), a chyfleoedd i bawb sydd â diddordeb wneud sylwadau - **20 niwrnod gwaith**.

- Yn dilyn ein hymgynghoriad 'penderfyniad arfaethedig', ystyriwn y sylwadau a gyflwynwyd a phenderfynwn yn derfynol ynghyd â'r Ddogfen Benderfynu esboniadol gysylltiedig.

Sylwer: gall y broses gyfan gymryd hyd at 12 mis, mewn achosion cymhleth

Beth ddigwyddith os na roddir trwydded?

- Mae ar yr orsaf bŵer angen Trwydded Amgylcheddol er mwyn gweithredu. Os gwrthodir trwydded, gallai'r ymgeisydd apelio yn erbyn y penderfyniad hwn.

Os na roddir trwydded, beth mae hynny'n ei olygu?

- Os roddir trwydded, gall yr ymgeisydd weithredu'r orsaf bŵer yn unol ag amodau'r drwydded, ac nid fel arall.

Pryd allwn ni fynegi ein barn ni?

- Yn ystod y ddau gyfnod ymgynghori a ddisgrifiwyd uchod.

Beth ellir dylanwadu arno, ac na ellir

- ***Gellir*** **dylanwadu ar:**
  - amodau'r drwydded, trwy ddarparu gwybodaeth nas cynhwyswyd yn y cais, neu trwy gywiro gwybodaeth anghywir yn y cais (arolygu a thechnegau rheoli llygredd, e.e.);
  - math a hyd yr ymgysylltu yn y dyfodol;
  - agwedd yr ymgeisydd/gweithredwr at ymgysylltu â'r gymuned.
- ***Ni ellir*** **dylanwadu ar:**
  - y broses gyfreithiol ddiffiniedig y canlynwn wrth benderfynu trwydded;
  - unrhyw beth y tu hwnt i gylch dyletswydd y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (RhTA) a'r cyfarwyddebau Ewropeaidd perthnasol: lleoliad y safle, e.e.;
  - y dyddiad y cyflwynir y cais am y drwydded/newid;
  - caniatáu trwydded/newid, lle gall y gweithredwr ddangos y gall gyflawni'r gweithgaredd heb fygwth yr amgylchedd neu iechyd dynol yn sylweddol.

Sut, felly, y maen nhw eisoes wedi dechrau adeiladu'r orsaf bŵer?

- Mae RWE wedi penderfynu dechrau adeiladu cyn y penderfynir ynghylch y drwydded Amgylcheddol. Hynny ar eu menter eu hunain, fel yr eglurwyd

wrthynt. Mae gan RWE y caniatâd angenrheidiol ar gyfer adeiladu'r orsaf bŵer, ond bydd arnynt angen Trwydded RhTA ar gyfer ei gweithredu.

Beth ydych chi'n ei wneud er mwyn rheoli'r effeithiau ar yr amgylchedd yn ystod yr adeiladu?

- Rydym yn gweithio'n agos â gweithredwyr y safle er mwyn lleihau effaith yr adeiladu ar yr amgylchedd i'r eithaf. Mae Tîm Amgylchedd, gan gynnwyd RWE, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyngor Sir Benfro a ninnau wedi'i sefydlu er mwyn delio ag unrhyw faterion: roedd hynny'n amod yn y caniatâd cynllunio.

Beth yw COMAH?

Rheoleiddir COMAH (Rheoli Peryglon Damweiniau Mawrion) gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar y cyd.

- Mae trefn COMAH'n amcanu atal a chyfyngu ar ganlyniadau damweiniau mawrion mewn tua mil o sefydliadau sy'n defnyddio neu'n storio symiau sylweddol o sylweddau peryglus, megis cynhyrchion olew, nwy naturiol, cemegolion neu ffrwydron.

  Gallai 'damwain fawr' olygu allyriad direolaeth, tân neu ffrwydrad yn arwain at fygythiad difrifol i iechyd dynol neu'r amgylchedd. Achosi damwain fawr ddifrod sylweddol a/neu hirdymor i'r amgylchedd.

Ydi'r safle'n dod o dan COMAH?

- Efallai y bydd rhaid i'r orsaf bŵer roi gwybod i'r awdurdod cymwys ar gyfer COMAH ei bod yn sefydliad "rheng isel", oherwydd maint y trin dŵr a'r cemegolyn glanhau a storir.

Oni ddylid defnyddio'r gwres gwastraff?

- Dylid, yn ddelfrydol: ond 'does yna ddim cwsmeriaid parod ar gyfer y dŵr poeth. Byddai adolygu effeithlonrwydd ynni'n elfen o drwydded, pe rhoddid un.

Beth yw polisi presennol yr Asiantaeth ynghylch Gwres a Phŵer Cyfun (GPC)?

- Ein safbwynt Technegau Gorau Sydd Ar Gael (TGSAG) yw ein bod ni'n annog pobl i godi gorsafoedd GPhC.

Beth NAD yw'r Asiantaeth yn ei wneud?

Nid ydym yn ymwneud â materion y tu hwnt i gylch rheoleiddiol ei dyletswyddau ni. Wrth benderfynu'r cais am drwydded RhTA, er enghraifft, *nid edrychwn ar* :

- Yr angen cynhyrchu rhagor o drydan.
- Y dewis lleoliad.
- Golwg y gwaith.

Ystyriodd yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd (AYNH) y materion hyn wrth benderfynu'r caniatâd Deddf Trydan, gan ymgynghori â Chyngor Sir Benfro.

Lle allwn ni ganfod rhagor?

- Bydd y cais a gwybodaeth berthnasol arall ar gael ar y cofrestrau cyhoeddus. Bydd yr wybodaeth ar ddwy gofrestr gyhoeddus:

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Swyddfa Ardal y De-orllewin
Maes Newydd
Llandarsi
Castell Nedd Port Talbot
SA10 6JQ

a

Cofrestr Gyhoeddus Cyngor Sir Benfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

- Gallwch weld y dogfennau'n rhad ac am ddim yn Swyddfa Ardal y De-orllewin Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru o ddydd Llun hyd ddydd Gwener rhwng 09:30 – 16:30. Cysylltwch â'r Tîm cysylltiadau Allanol er mwyn trefnu'ch ymweliad chi.

  E-bost: External_Relations_SWW@environment-agency.gov.uk

  Ffôn: Y Gwasanaeth Cyswllt Cwsmeriaid Cenedlaethol ar 08 708 506 506.
  Gall cynghorwyr gyfeirio'ch galwad chi at y tîm neu swyddog perthnasol.

- Gallwch hefyd ysgrifennu atom er mwyn gofyn am gopïau o ran o'r adroddiad neu'r cyfan ohono. Efallai y codir tâl am hynny, gan ddibynnu ar faint o wybodaeth y gofynnir amdani. Gallwch ymweld â'n swyddfa ni (manylion uchod) a gwneud llungopïau o'r cais. Efallai y codir tâl am hynny, hefyd.